Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Amserlen ar gyfer ystyried: Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

Rhagfyr 2024

Ar 9 Rhagfyr 2024, cyflwynwyd y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) yn y Senedd.

Ar 19 Tachwedd 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 3 Rhagfyr 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, ar amserlen ar gyfer gwaith y Pwyllgor o ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, gan gytuno y dylai’r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i’r Senedd erbyn 4 Ebrill 2025.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 13 Mehefin 2025, ar yr amod bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.